**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mawrth 2009**

## ALLDRO AMODOL 2008-2009

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Diben yr adroddiad yw rhoi amcangyfrif i Aelodau o'r alldro amodol ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-2009.

## Cyflwyniad

**2.** Caiff gwariant yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig mor fuan â phosibl fel bod modd sefydlu mesurau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd tanwariant o dan reolaeth o £121,607. Mae dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariant ag arwydd minws (-).

**3.** Cytunodd yr Aelodau i ddiogelu £115,000 o'r tanwariant y gwyddid amdano (£80,000 Pensiwn ar sail Iechyd a llog o £35,000) i leihau'r cynnydd cyllideb ar gyfer 2009/10. Felly, mae'r tanwariant wedi'i leihau i £6,607. Mae amcangyfrif y tanwariant yn fychan o'i gymharu â'r gyllideb o £30 miliwn ac felly, yr argymhelliad i'r Aelodau yw y dylent nodi'r tanwariant.

**4.** Mae'r ffigurau terfynol cyfalaf wedi'u nodi yn Atodiad B ac mae'n edrych yn debygol ar hyn o bryd, oherwydd oedi anochel ar rhai o'r prosiectau, ni fydd yr holl gyllideb yn cael ei gwario yn 2008/09. Bydd y gyllideb ar gyfer cynlluniau na gwblhawyd yn 2008/09 yn mynd ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

**Amrywiadau i'r Gyllideb - Refeniw**

**5.(a)** Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymwneud â thâl ac mae'n ymddangos y bydd tanwariant net ar dâl eleni. Mae'r tanwariant ar ddiffoddwyr tân llawn amser yn bennaf oherwydd gorddarpariaeth ôl-dâl ar gyfer taliadau datblygiad proffesiynol parhaol (CPD) gan fod y nifer o geisiadau yn is na'r disgwyl ac hefyd oherwydd yr amseru rhwng llenwi swyddi gwag.

**(b)** Gellir hefyd egluro'r tanwariant ar ddiffoddwyr tân rhan amser oherwydd ffactorau fel gorddarpariaeth ôl-dâl ar gyfer taliadau CPD, y lefel isel o weithgaredd eleni, a'r trafferthion o geisio recriwtio diffoddwyr tân rhan amser.

**(c)** Mae'r codiad cyflog ar gyfer Staff Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn 2008/09 rŵan wedi'i gytuno ar lefel o 2.75% ac mae wedi'i gynnwys yn y ffigurau terfynol.

**6.** Mae'r tanwariant pensiynau oherwydd nad yw'r gyllideb ar gyfer taliadau Ymddeoliad ar sail Iechyd i'r gronfa bensiwn yn cael ei defnyddio. Fel y nodwyd uchod, mae'r tanwariant hwn wedi'i ddiogelu i gefnogi cyllideb 2010/11.

**7.** Adleoliwyd yr ystafell Reoli i'r Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd yn Llanelwy ddechrau fis Hydref ac mae'r costau ychwanegol am ran o'r flwyddyn bellach wedi eu cynnwys. Mae'r costau yn llai nag a glustnodwyd yn y gyllideb oherwydd eu bod wedi symud yn hwyrach na'r disgwyl a cytunwyd gyda Heddlu Gogledd Cymru i leihau'r costau.

**8.** O dan y pennawd Cludiant mae'r gorwariant oherwydd pris tanwydd, defnydd tanwydd a'r cynnydd mewn lwfansau teithio sy'n cael eu talu i staff. Mae'r gorwariant wedi'i osod yn rhannol yn erbyn arbedion ar gostau rhedeg eraill, sef yswiriant cerbydau. Yn gyffredinol, mae'r gorwariant a amcangyfrifir ar gostau cludiant wedi eu gosod yn erbyn arbedion eraill yn y gyllideb.

**9.** O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau bydd y prif faes gorwariant ar gostau TG yn sgil cynnydd mewn costau trwyddedu, uwchraddio'r rhwydwaith a gwaith datblygu ar nifer o systemau, yn arbennig y system newydd ar gyfer mewngofnodi archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a chefnogi *Firelink*. Unwaith eto, bydd y gorwariant ar Gyflenwadau a Gwasanaethau yn cael ei osod yn erbyn arbedion eraill yn y gyllideb.

**10.** Er mwyn ychwanegu at sgiliau mewnol defnyddiwyd gweithwyr proffesiynol allanol i gynorthwyo'r Gwasanaeth mewn nifer o feysydd, yn bennaf yn ymwneud â gweithwyr, pan fo angen cael cyngor ar faterion cyfreithiol cymhleth. Yn anffodus ni ellir osgoi'r costau hyn ac amcangyfrifir y bydd gorwariant o dan y pennawd hwn yn y gyllideb.

**11.** Ni fydd yr incwm ychwanegol a amcangyfrifwyd yn sgil llog ar gael oherwydd sefyllfa fregus bresennol y marchnadoedd arian. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei osod yn erbyn arbedion ar Arian Cyfalaf oherwydd llithriad ar y rhaglen gyfalaf yn 2007/2008 ac arbedion taliadau llog oherwydd aildrefnu dyledion PWLB.

**12.** Yn gyffredinol mae'r amcangyfrif o'r ffigurau terfynol ar gyfer incwm yn is na'r disgwyl, yn bennaf oherwydd y gostyngiad yn lefel darpariaethau gan yr Awdurdod a'r cwymp dramatig mewn cyfraddau llog. Ond, mae hyn yn cael ei osod yn rhannol yn erbyn ad-daliadau gan y Cynulliad ar gyfer prosiectau arbennig a secondiadau staff ychwanegol.

**Amrywiadau i'r Gyllideb – Cyfalaf**

**13.** Mae prosiect Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl rŵan wedi'i gwblhau a bydd y £30,000 diwethaf yn cael ei dalu yn 2009/2010. Gwnaed arbedion o £75,000 ar gostau gwreiddiol y cynllun.

**14.** Bydd gwaith yn dechrau ar Orsaf Dân Llangefni yn 2008/09 ond ni fydd y mwyafrif o'r gwaith wedi'i gwblhau tan 2009/10 pan fydd y mwyafrif o'r gyllideb yn cael ei gwario.

**15.** Mae'r gorwariant o £93,000 ar Orsaf Dân Bwcle eisoes wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod eisoes ac mae wedi'i osod yn erbyn arbedion ar Orsaf Dân Cymunedol y Rhyl a Gorsaf Dân y Waun.

**16.** Mae prosiectau gorsafoedd tân Wrecsam a Nefyn yn dal o dan drafodaeth ac ni ddisgwylir i waith ddechrau tan 2009/10.

**17.** Arbedwyd arian ar gost y Tendrau Dŵr trwy gaffael cerbydau trwy'r consortiwm prynu Cymru Gyfan. Ni fydd yr offer swyddogaeth ddeublyg yn cael eu darparu yn y flwyddyn ariannol hon oherwydd trafferthion o gytuno dyddiad adeiladu gyda'r gwneuthurwr.

**18.** Mae'r Cynulliad wedi awgrymu y byddant yn ariannu'r gwariant ar y prosiect *Firelink*.

**ARGYMHELLIAD**

**19.** Argymhellir fod Aelodau yn nodi'r amcangyfrif tanwariant ar refeniw a'r wybodaeth ynglŷn â'r rhaglen gyfalaf.